**CYFLWYNIAD**

**Nodau**

1. Yn y ddogfen hon, pennir y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn unol ag Adran 23 o Ddeddf Safonau Gofal 2000 (DSG) mewn perthynas â chynlluniau lleoli oedolion.

2. Mae 'cynllun lleoli oedolion' yn golygu cynllun lle y gwneir trefniadau neu lle y bwriedir gwneud trefniadau i ddim mwy na dau oedolyn gael llety a gofal personol yng nghartref rhywun nad yw'n perthyn iddynt.

3. Lluniwyd a chyhoeddwyd y Safonau gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC). Bydd y safonau hyn yn cael eu defnyddio gan Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru (ASGC) CCC wrth benderfynu a yw'r cynlluniau hyn i leoli oedolion yn gofalu bod y lleoliadau yn darparu gofal digonol, ac yn cwrdd ag anghenion pobl sy'n byw mewn lleoliadau ac a ydynt, fel arall, yn cael eu cynnal yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn parhau i adolygu'r safonau a gall gyhoeddi safonau diwygiedig fel y bo'n briodol.

4. Nodir y gofynion rheoleiddiol yn y Ddeddf Safonau Gofal a Rheoliadau Cynlluniau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004 (Rheoliadau 2004).

5. Bydd y Safonau yn cael eu cymryd i ystyriaeth –

a) gan ASGC wrth wneud penderfyniadau o dan y Ddeddf Safonau Gofal;
b) gan ynad heddwch wrth ystyried gweithdrefnau ar gyfer gwneud gorchymyn o dan Adran 20 o'r Ddeddf Safonau Gofal (er enghraifft, diddymu cofrestriad rhywun sydd wedi'i gofrestru i ddarparu cynllun lleoli oedolion);
c) mewn apêl yn erbyn y cyfryw benderfyniad neu orchymyn; ac
d) mewn achosion troseddol am droseddau o dan Reoliadau 2004.

6. Bydd y Safonau a'r Rheoliadau hyn yn gymwys o 1 Awst 2004.

**Y Cyd-destun Rheoliadol**

7. Trwy'r Ddeddf Safonau Gofal diwygiwyd y system reoliadol ar gyfer gwasanaethau gofal yng Nghymru a Lloegr. O dan y ddeddf Safonau Gofal, sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn awdurdod cofrestru gofal cymdeithasol a gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Rhoddir y swyddogaethau hyn ar waith trwy ASGC. Mae ASGC yn gyfrifol am gofrestru gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd a arferai gael eu cofrestru gan gynghorau lleol ac awdurdodau iechyd. Hefyd, mae'r Ddeddf Safonau Gofal yn gwneud darpariaeth fel y gellir cofrestru gwasanaethau eraill na arferid eu cofrestru, megis asiantaethau cymorth yn y cartref, gwasanaethau maethu a chanolfannau preswyl i deuluoedd. Mae'r Rheoliadau yn ymestyn y gyfundrefn gofrestru i gynlluniau lleoli oedolion.

**Y strwythur a'r dull o weithredu**

8. Mae'r Safonau yn canolbwyntio ar ganlyniadau y mae modd eu cyflawni ar gyfer y sawl sy'n cael ei leoli - hynny yw effaith cyfleusterau a gwasanaethau y lleoliad ar yr unigolyn. Mae'r Safonau wedi'u grwpio yn 7 adran sy'n tynnu sylw at agweddau o fywyd yr unigolion.

Mae pob Safon yn ymdrin ag agwedd benodol o'r lleoliad. Uwch ei phen rhoddir datganiad o'r canlyniad y bwriedir ei gael ar gyfer unigolion. Lluniwyd y Rheoliadau a'r Safonau er mwyn helpu i gyflawni'r canlyniad hwnnw.

Mewn gwirionedd, mae'r 'safon' sy'n ymwneud ag agwedd benodol o'r lleoliad yn cynnwys cyfres o safonau. Cyfres o baragraffau yw'r rhain wedi eu rhifo o dan y blwch 'canlyniad'. At ddibenion y Ddeddf Safonau Gofal dylid trin pob un o'r paragraffau hyn fel safon ar wahân o dan adran 23 o'r Ddeddf Safonau Gofal.

9. Bwriedir i'r safonau fod yn ansoddol, sef eu bod yn llinyn i fesur ansawdd y bywyd a brofir gan unigolyn sydd wedi'i leoli, ond lluniwyd hwy hefyd fel y gellir eu mesur. Dros gyfnod o ddeuddeng mis, bydd Arolygwyr ASGC yn:

- gofyn am farn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaethau
- siarad â rheolwyr a'r staff
- bodloni eu hunaian bod yr holl gofnodion yn cael eu cadw'n briodol.

10. Mae'r Safonau wedi cael eu pennu yn dilyn ymgynghoriad ac maent yn realistig, yn gymesur, yn deg ac yn dryloyw. Maent yn darparu safonau gofynnol, yn anelu at sicrhau diogelwch unigolion sydd wedi'u lleoli ac yn ceisio gwarchod a hybu iechyd, lles ac ansawdd bywyd unigolion sydd mewn lleoliad.

**Gwerthoedd allweddol**

11. Mae'r Safonau wedi'u seilio ar rai egwyddorion sylfaenol. Wrth gymhwyso'r Rheoliadau a'r Safonau hyn, bydd y rheoleiddwyr yn chwilio am dystiolaeth bod y modd y caiff y lleoliadau oedolion eu rhedeg o ddydd i ddydd yn adlewyrchu'r gwerthoedd allweddol canlynol:

- Ymreolaeth - hybu ymreolaeth unigol, hunan-benderfyniad a dewis, a rheolaeth dros wneud penderfyniadau;

- Cyrhaeddiad - cydnabyddiaeth o allu unigol a'r potensial ar gyfer datblygiad personol, a'r rhwystrau cymdeithasol ac amgylcheddol rhag cyflawni'r potensial hwnnw;

- Dinasyddiaeth - cadw'r hawliau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth o dan y gyfraith, gan gynnwys amddiffyniad rhag gwahaniaethu, harasio, triniaeth ddiraddiol neu annynol;

-  Hunaniaeth - parch tuag at hunaniaeth, preifatrwydd, ac urddas, a chynnal hunan-barch ym mhob sefyllfa;
-  Amrywiaeth - parch tuag at oedran, amrywiaeth ethnig a diwylliannol, a hybu cyfle cyfartal;
-  Llesiant - hybu llesiant corfforol, emosiynol ac ysbrydol;
-  Cynhwysiant - hybu cynhwysiant cymdeithasol ac economaidd a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol.

## SAFONAU GOFYNNOL CENEDLAETHOL AR GYFER CYNLLUNIAU LLEOLI OEDOLION

### TERMAU

**ASGC**

Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru

**Cynllun Lleoli Oedolion**

Cynllun lle y gwneir trefniadau neu lle y bwriedir gwneud trefniadau i ddim mwy na dau oedolyn gael llety a gofal personol yng nghartref rhywun nad yw'n perthyn iddynt.

**Cytundeb Lleoli**

Cytundeb rhwng y defnyddiwr gwasanaeth, yr un sy'n darparu'r Cynllun Lleoli Oedolion a Gofalwr y Lleoliad Oedolion.

**Darparwr Cofrestredig**

Person sydd wedi'i gofrestru o dan Ran II o'r Ddeddf fel darparwr y cynllun lleoli oedolion.

**DSG**

Deddf Safonau Gofal 2000

**Gofalwr y Lleoliad Oedolion**

Person y gallai oedolyn gael llety a gofal yn ei gartref o dan gytundeb lleoli oedolion.

**Gweithiwr Lleoli Oedolion**

Unigolyn sydd â chymwysterau a phrofiad a gyflogir gan ddarparwr cofrestredig i weithredu ei dasgau o dan y Cynllun Lleoli Oedolion.

**Rheoliadau**

Rheoliadau Lleoli Oedolion (Cymru) 2004; ac oni bai y nodir yn wahanol, bydd cyfeiriad at reoliad yn golygu cyfeiriad at un o'r Rheoliadau hyn.

**Rheolwr Cofrestredig**

Person a gofrestrwyd o dan Ran II y Ddeddf yn rheolwr y cynllun lleoli oedolion.

**Rheolwr Gofal/Achos**

Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol neu Dîm Cymorth Cymunedol sy'n asesu ac yn clustnodi anghenion person ac sy'n comisiynu ac yn adolygu'r gwasanaeth a ddarperir mewn partneriaeth â Chynlluniau Lleoli Oedolion.

**ADRAN UN: DEWIS LLEOLIAD**

**SAFON 1: GWYBODAETH**

**CANLYNIAD:**

Mae gan y darpar ddefnyddwyr gwasanaeth y wybodaeth y mae arnynt ei hangen i wneud dewis gwybodus ynghylch lle i fyw.

**Y SAFON:**

1.1 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth wedi cael canllaw i'r cynllun lleoli oedolion sy'n cynnwys gwybodaeth sylfaenol am:

- nodau, amcanion ac athroniaeth y Cynllun Lleoli Oedolion (gan gynnwys unrhyw arolygon o ddefnyddwyr gwasanaeth);
- y broses atgyfeirio, cydweddu a lleoli;
- yr amrywiaeth o lety sydd ar gael, y cymorth a'r cyfleusterau a ddarperir gan Ofalwyr y Lleoliadau Oedolion;
- graddfa'r ffioedd a godir, yr hyn y maent yn ei gynnwys, a chost "pethau ychwanegol";
- termau contract allweddol yn ymwneud â derbyn, meddiannu a therfynu lleoliad;
- copi, neu grynodeb, o adroddiad diweddaraf yr arolygwyr, y weithdrefn gwynion, a gwybodaeth am sut i gysylltu â swyddfa leol ASGC a gwasanaethau cymdeithasol a byrddau iechyd lleol.

1.2 Rhoddir y wybodaeth ar ffurfiau sy'n addas ar gyfer y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth, (e.e. ieithoedd, lluniau, fideo, sain neu esboniad priodol).

## SAFON 2: ASESU ANGHENION

## CANLYNIAD:

Mae dyheadau ac anghenion darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hasesu.

## Y SAFON:

2.1 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod darpar ddefnyddiwr gwasanaeth wedi cael asesiad llawn gan bobl a oedd wedi'u hyfforddi i wneud hynny, a bod y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth wedi cael defnyddio dull cyfathrebu priodol yn ystod yr asesiad hwnnw.

2.2 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod cynllun oedolyn wedi cael ei baratoi at ddibenion y lleoliad sy'n disgrifio sut y mae anghenion defnyddiwr y gwasanaeth, fel y'u haseswyd, i gael eu diwallu.

2.3 Yn achos unigolion sy'n cael eu hatgyfeirio drwy ddull Rheoli Gofal, mae'r rheolwr cofrestredig yn cael crynodeb o'r asesiad Rheoli Gofal (iechyd a gwasanaethau cymdeithasol) unigol (wedi'i integreiddio â'r Rhaglen Gofal ar gyfer pobl â phroblemau iechyd meddwl) a chopi o'r Cynllun Gofal unigol.

2.4 Yn achos unigolion sy'n ariannu eu hunain (h.y. y rhai sydd heb Asesiad Rheoli Gofal/Cynllun Gofal), gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod asesiad o anghenion wedi'i gwblhau (gweler Safon 3 - Cydweddu a Lleoli) a'i fod wedi cynnwys:

- Llety addas a chymorth personol
- Addysg, hyfforddiant a/neu waith ystyrlon
- Cysylltiad teuluol/cymdeithasol
- Incwm digonol
- Asesu a rheoli risgiau
- Anghenion diwylliannol a chrefyddol
- Gofal iechyd corfforol a meddyliol
- Anghenion sy'n berthnasol i gyflwr penodol a mewnbwn arbenigol
- Darparu offer ar gyfer anabledd, gan gynnwys trefniadau ar gyfer talu a chyflenwi
- Rhaglen driniaeth/adsefydlu
- Dull cyfathrebu
- Unrhyw gyfyngiadau posibl ar ddewis, rhyddid, gwasanaethau neu gyfleusterau, ar sail anghenion arbenigol a risgiau.

**SAFON 3: CYDWEDDU A LLEOLI**

**CANLYNIAD:**

Mae darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod y bydd y cartref y maent yn ei ddewis yn bodloni eu hanghenion a'u dyheadau.

**Y SAFON:**

3.1 Ni fydd y rheolwr cofrestredig yn derbyn defnyddiwr gwasanaeth oni ellir diwallu ei anghenion asesedig yn llety Gofalwr y Lleoliad Oedolion a'r trefniadau gofal sy'n rhan o'r cynllun a bydd yn cadarnhau ac yn talu sylw i ddymuniadau a theimladau defnyddiwr y gwasanaeth.

3.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn fodlon bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion (a'r teulu) a'r darpar ddefnyddiwr gwasanaeth wedi'u cydweddu'n briodol o ran oedran, rhywedd, cefndir diwylliannol, dewis ieithyddol, diddordebau personol ac anghenion cyfathrebu er mwyn gofalu i'r eithaf am iechyd a lles y defnyddiwr gwasanaeth.

3.3. Mae'r rheolwr cofrestredig yn fodlon bod gan Ofalwr y Lleoliad Oedolion y sgiliau a'r profiad i roi'r gwasanaethau a'r gofal sydd eu hangen (fel y'u haseswyd), ac mae'n amlwg bod pob gwasanaeth arbenigol sy'n cael ei gynnig wedi'i seilio ar arferion da cyfredol, ac yn adlewyrchu canllawiau arbenigol a chlinigol perthnasol.

3.4 Os yw gofal nyrsio yn cael ei ddarparu mae anghenion nyrsio'r defnyddiwr gwasanaeth wedi'u hasesu gan nyrs gofrestredig, gan ddefnyddio offer asesu cydnabyddedig yn unol â chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol, ac mae Gofalwr y Lleoliad Oedolion wedi cael ei hyfforddi gan weithiwr iechyd proffesiynol ac yn gweithio dan ei oruchwyliaeth.

3.5 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod anghenion adsefydlu ac anghenion therapiwtig wedi'u hasesu gan weithwyr proffesiynol iechyd cofrestredig trwy ddefnyddio dulliau asesu cydnabyddedig.

3.6 Ac eithrio mewn sefyllfa pan fydd angen lleoli ar frys, mae Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn treulio o leiaf ddiwrnod (hanner diwrnod yn achos lleoliadau seibiant byr) yn dod i adnabod a deall y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth (yn unol â gweithdrefnau ysgrifenedig y cynllun), a gall y rheolwr cofrestredig gadarnhau bod lles ac anghenion perthnasau wedi'u cymryd i ystyriaeth yn ystod y broses gydweddu, cyhyd â bod y defnyddiwr gwasanaeth yn cytuno.

3.7 Mae'r rheolwr cofrestredig yn fodlon y gall Gofalwr y Lleoliad Oedolion gyfathrebu'n effeithiol, neu ddysgu sut i gyfathrebu'n effeithiol â'r darpar ddefnyddiwr gwasanaeth drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan yr unigolyn ac mae'n sicrhau bod y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth yn deall y broses a chanlyniad y gweithdrefnau cydweddu a lleoli.

3.8 Rhoddir gwybod i ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth am gynlluniau eiriolaeth/hunaneiriolaeth annibynnol drwy'r broses leoli.

3.9  Mae'r darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn gwybod a allant gadw ci cymorth (ci tywys, ci ar gyfer pobl anabl neu gi sy'n clywed ar ran pobl fyddar).

**SAFON 4: YMWELIADAU PRAWF**

**CANLYNIAD:**

Mae gan ddarpar ddefnyddwyr gwasanaeth gyfle i ymweld â'r cartref a 'rhoi prawf' arno.

**Y SAFON:**

4.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gofalu bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn gwahodd y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth i ymweld â'i gartref ac i aros yno ar brawf, cyn penderfynu symud yno, ac yn osgoi derbyniadau sydd heb eu cynllunio os yw'n bosibl.

4.2 Cynigir ymweliad dros nos o 24 awr o leiaf â chartref Gofalwr y Lleoliad Oedolion i ddarpar ddefnyddwyr sy'n bwriadu aros am gyfnod hir, a chynigir hanner diwrnod o leiaf â chartref Gofalwr y Lleoliad Oedolion i'r rhai fydd yn aros yno am gyfnod byr, sy'n cynnwys cyfle i'r darpar ddefnyddiwr gwasanaeth (gyda'i deulu, ei ffrindiau, a'i eiriolydd fel y bo'n briodol):

- gyfarfod â theulu Gofalwr y Lleoliad Oedolion ac unrhyw ddefnyddiwr gwasanaeth arall;
- gweld y cartref, yr ystafell y bydd y defnyddiwr gwasanaeth yn byw ynddi, a'r gymdogaeth;
- cael pryd o fwyd;
- trafod sut y gall y lleoliad fodloni gofynion y defnyddiwr gwasanaeth;
- gweld y math o gofnodion a gedwir am ddefnyddwyr gwasanaeth.

4.3 Mae cyfle gan y darpar ddefnyddiwr gwasanaeth a darpar Ofalwr y Lleoliad drafod y cyfnod ymgynefino a dod ag ef i ben heb edliw na beirniadu.

4.4 Cynigir isafswm o fis o gyfnod ymgynefino ar gyfer lleoliadau o fwy na chwe mis, ac yna adolygiad o'r cyfnod prawf.

4.5 Pan leolir ar frys, mae'r rheolwr cofrestredig yn ymrwymo i hysbysu'r defnyddiwr gwasanaeth o fewn 24 awr ynghylch agweddau allweddol ar y lleoliad, ac i sicrhau bod Cytundeb Lleoli yn cael ei ddarparu a bod pob maen prawf lleoli arall yn cael ei fodloni o fewn tri diwrnod gwaith.

4.6 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod ganddo/ganddi ddigon o wybodaeth am y defnyddiwr gwasanaeth adeg lleoliad brys i sicrhau diogelwch y defnyddiwr gwasanaeth, a diogelwch Gofalwr y Lleoliad a'i deulu, a'i fod yn cael gwybodaeth gynhwysfawr cyn pen un diwrnod gwaith.

**SAFON 5: Y CYTUNDEB LLEOLI OEDOLION**

**CANLYNIAD:**

Mae gan bob defnyddiwr gwasanaeth Gytundeb Lleoli ysgrifenedig unigol sy'n adlewyrchu anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, fel y'u haseswyd, a'i nodau personol.

**Y SAFON:**

5.1 Mae Cytundeb Lleoli Oedolion ysgrifenedig ar gael, sy'n cynnwys Cynllun y Defnyddiwr Gwasanaeth (Safon 2), yn nodi telerau ac amodau'r feddiannaeth a hawliau a chyfrifoldebau'r holl bartïon.

5.2 Mae'r Cytundeb Lleoli Oedolion ar ffurf ac mewn iaith sy'n briodol ar gyfer anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, ac mae'n cael ei adolygu'n rheolaidd.

5.3 Yn ogystal â chwrdd ag anghenion y Rheoliadau, mae'r Cytundeb Rheoli Oedolion yn pennu:

- unrhyw amodau y byddai eu torri yn golygu y byddai perygl bod gofyn i'r defnyddiwr gwasanaeth ymadael;
- y gwasanaethau a'r cymorth i'w darparu gan y Cynllun Lleoli Oedolion a sut y bydd y gwasanaethau a'r cymorth hwn yn diwallu anghenion presennol a chyfnewidiol a dyheadau'r defnyddiwr ac yn helpu defnyddwyr gwasanaethau i gyrraedd nodau.
- y rheoliadau a'r trefniadau mewn perthynas â'r defnyddiwr gwasanaeth: y cyfle i gael ymwelwyr ac aros allan yn hwyr gyda'r nos; cyfrifoldeb am dasgau cadw tŷ; ysmygu, alcohol a chyffuriau; ymosodiadau corfforol a/neu lafar;
- unrhyw gyfyngiadau ar ddewis a rhyddid (wedi'u cytuno gyda'r defnyddiwr gwasanaeth) a orfodir gan raglen arbenigol ac sy'n pennu gweithdrefnau gwahanol ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth sy'n debygol o ymosod neu achosi niwed neu niwed iddynt eu hunain.
- y weithdrefn i'w dilyn os oes honiad o gam-drin, esgeulustod neu niwed arall wedi'i wneud.
- y weithdrefn i'w dilyn os bydd rhywun sy'n denfyddio'r gwasanaeth yn marw.

5.4 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gofalu bod y Cytundeb Lleoli Oedolion ar gael ar ffurf ac mewn iaith y gall defnyddiwr y gwasanaeth ei deall a'i fod ar gael i'r defnyddiwr gwasanaeth.

5.5 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos tystiolaeth bod y lleoliad yn cael ei adolygu fesul chwe mis o leiaf gyda defnyddiwr y gwasanaeth a bod y newidiadau y cytunwyd i'w gwneud yn cael eu cofnodi a'u rhoi ar waith.

5.6 Mae'r Cytundeb Lleoli Oedolion yn gydnaws ag unrhyw Asesiad Rheoli Gofal/Cynllun Gofal unigol sydd gan yr awdurdod lleol, mae'n talu sylw i

asesiad Gofalwr y Lleoliad Oedolion ac mae'n cwmpasu holl agweddau'r anghenion personol, cymdeithasol a gofal iechyd, gan gynnwys anghenion arbenigol, fel y nodir yn Safon 2.

## ADRAN 2: ANGHENION A DEWISIADAU UNIGOL

## SAFON 6: CYMRYD RHAN A GWNEUD PENDERFYNIADAU

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan yn y bywyd teuluol yn y lleoliad ac yn gwneud penderfyniadau am eu bywydau gyda chymorth yn ôl yr angen.

**Y SAFON:**

6.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gofalu bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn parchu hawl y defnyddiwr gwasanaeth i wneud penderfyniadau a dim ond drwy'r broses asesu, sy'n cynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, ac yn unol â'r cofnod yn y Cynllun Lleoli Oedolion, y cyfyngir ar yr hawl honno.

6.2 Mae gwybodaeth ar gael am bob agwedd ar y lleoliad mewn ffurfiau sy'n briodol i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth (e.e. yr iaith a ffefrir, print bras, Braille, sain, ac yn cael ei hesbonio yn ôl yr angen drwy ddefnyddio'r dull cyfathrebu sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth.

6.3 Mae Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn galluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yn y cartref fel aelod o'r teulu, gan barchu hawliau holl aelodau'r cartref i breifatrwydd a lle personol.

6.4 Mae'r Rheolwr Gofal, law yn llaw â’r rheolwr cofrestredig, yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth, os dymunant, i ddod o hyd i grwpiau eiriolaeth/hunan-eiriolaeth lleol a/neu ddod o hyd i gymorth gan rywun sy'n rhannu anabledd, treftadaeth neu ddyheadau'r defnyddiwr gwasanaeth.

6.5 Gall Gofalwr y Lleoliad Oedolion gyfathrebu, neu mae’n barod i ddysgu sut i gyfathrebu yn yr iaith sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys iaith arwyddion, ac mae'n hen law ar y dull cyfathrebu sy'n berthnasol i anghenion yr unigolyn (e.e. arwain, gwyddor bloc, sillafu â bysedd, symbolau personol).

6.6 Gall Gofalwr y Lleoliad Oedolion egluro sut y mae penderfyniadau teuluol wedi'u gwneud a gall ddangos i'r rheolwr cofrestredig ei fod yn chwarae rhan lawn yn y broses benderfynu o fewn y teulu.

6.7 Dim ond er lles gorau'r defnyddiwr gwasanaeth, ac yn gyson â dyletswyddau a chyfrifoldebau'r darparwr cofrestredig a Gofal y Lleoliad Oedolion o dan y gyfraith, y mae cyfyngiadau ar gyfleusterau, dewis neu weithgareddau yn cael eu gwneud i atal hunan-niwed neu hunan-esgeulustod, neu gam-drin neu achosi niwed i eraill.

6.8 Mae defnyddwyr gwasanaeth yn trafod eu harian eu hunain; os oes angen cymorth a hyfforddiant, mae'r rhesymau dros eu rhoi a dull y cymorth yn cael eu cofnodi yn y Cytundeb Lleoli Oedolion a'u hadolygu.

## SAFON 7: CYMRYD RISGIAU

### CANLYNIAD:

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth i gymryd risgiau fel rhan o ddull annibynnol o fyw.

### Y SAFON:

7.1 Mae'r rheolwr cofrestredig a Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gymryd risgiau cyfrifol, gan sicrhau bod ganddynt wybodaeth dda yn sail i'w penderfyniadau, yng nghyd-destun strategaethau asesu risgiau a rheoli risgiau y Cynllun Lleoli Oedolion.

7.2 Cyn derbyn defnyddiwr gwasanaeth, asesir y risg yn unol â phrotocolau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ac mewn trafodaethau â'r defnyddiwr gwasanaeth ac arbenigwyr perthnasol; caiff strategaethau rheoli risgiau eu cytuno, eu cofnodi yn y Cytundeb Lleoli Oedolion, a'u hadolygu.

7.3 Mae'r rheolwr cofrestredig a Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn gweithio mewn partneriaeth â'r Rheolwr Gofal i gyflawni dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch ei ddull o fyw a'i ddewisiadau a'i nodau ar gyfer bod yn annibynnol.

7.4 Mae’r rheolwr cofrestredig yn cymryd camau i gywiro risgiau a pheryglon sy'n dod i'r amlwg, ac mae’n sicrhau bod hyfforddiant diogelwch personol ync ael ei roi i'r defnyddiwr gwasanaeth, er mwyn osgoi cyfyngu ar weithgaredd dewisol neu ddewis y defnyddiwr gwasanaeth.

7.5 Ymatebir yn brydlon i absenoldebau diesboniad gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn diogelu eu lles.

**SAFON 8: CYFRINACHEDD**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn gwybod bod gwybodaeth amdanynt yn cael ei thrafod yn briodol a bod eu cyfrinachau yn cael eu cadw.

**Y SAFON:**

8.1 Mae gan y rheolwr cofrestredig bolisi ysgrifenedig ar gyfrinachedd ac ar ddelio ag achosion o dorri cyfrinachedd.

8.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn parchu'r wybodaeth a roddir gan y defnyddiwr gwasanaeth yn gyfrinachol, ac yn trafod gwybodaeth am y defnyddiwr gwasanaeth yn unol â'r gyfraith.

8.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gwybod pan fydd rhaid rhannu gwybodaeth sy'n cael ei rhoi'n gyfrinachol gyda Gofalwr y Lleoliad Oedolion, y Rheolwr Gofal neu eraill.

8.4 Mae cofnodion unigol y defnyddiwr gwasanaeth a gedwir gan y rheolwr cofrestredig yn gywir, yn ddiogel ac yn gyfrinachol.

8.5 Mae'r rheolwr cofrestredig yn helpu'r defnyddiwr gwasanaeth i weld ac i ddeall polisi'r Cynllun Lleoli Oedolion a'i weithdrefnau ar gyfrinachedd ac ar ymdrin ag achosion o dorri cyfrinachedd.

## ADRAN 3: DULL O FYW

## SAFON 9: DATBLYGIAD PERSONOL

**CANLYNIAD:**

Mae cyfleoedd gan y defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'n bersonol.

**Y SAFON**

9.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gweithio law yn llaw â'r Rheolwr Gofal i alluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gael cyfle i gynnal a datblygu sgiliau cymdeithasol, sgiliau emosiynol, sgiliau cyfathrebu a sgiliau byw yn annibynnol, fel y'u nodir yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

9.2 Mae'r rheolwr cofrestredig, law yn llaw â'r Rheolwr Gofal, yn hwyluso presenoldeb y defnyddwyr gwasanaeth mewn e.e. gweithgareddau arbenigol/hyfforddiant ynghylch hunanarddeliad a byw'n annibynnol/rhaglenni triniaeth ac adfer.

9.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn rhoi cymorth i Ofalwyr Lleoliadau Oedolion i helpu defnyddwyr gwasanaeth i ddysgu a defnyddio sgiliau bywyd ymarferol a magu hyder.

## SAFON 10: ADDYSG A HYFFORDDIANT

### CANLYNIAD:

Gall defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn cyfleoedd i gael addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n eu helpu i gyrraedd eu llawn botensial.

### Y SAFON:

10.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn galluogi Gofalwr y Lleoliad Oedolion i weithio'n gadarnhaol ar gynlluniau y mae'r Rheolwr Gofal wedi eu paratoi i helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i ddod o hyd i swyddi priodol a'u cadw, i barhau â'u haddysg neu eu hyfforddiant, neu gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon yn ystod y dydd. Mae hyn yn cynnwys meithrin a chynnal cysylltiadau â gwasanaethau cyngor gyrfaoedd, cyflogwyr lleol a chanolfannau gwaith.

10.2 Gall y defnyddwyr gwasanaeth barhau i gymryd rhan mewn gweithgareddau yr oeddent yn eu gwneud cyn mynd i'r cartref, os ydynt yn dymuno, neu ailafael mewn gweithgareddau os ydynt yn newid lleoliadau.

10.3 Mae'r Rheolwr Gofal yn helpu'r defnyddiwr gwasanaeth gyda budd-daliadau/ problemau ariannol neu'n ei gyfeirio at adnoddau priodol.

## SAFON 11: CYSYLLTIADAU CYMUNEDOL A CHYNHWYSIANT CYMDEITHASOL

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r gymuned leol.

**Y SAFON:**

11.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth gael cyfle i fod yn rhan o'r gymuned leol a chymryd rhan ynddi, yn unol â'r anghenion a aseswyd a'r Cytundeb Lleoli Oedolion.

11.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i integreiddio i fywyd cymunedol drwy'r canlynol:

- rhoi gwybodaeth am wasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau yn y gymuned leol (siopau, llyfrgell, sinema, tafarnau, canolfannau hamdden, addoldai, canolfannau diwylliannol) a chynorthwyo'r defnyddwyr gwasanaeth i'w defnyddio;
- cadw perthynas gymdogol â'r gymuned;
- sicrhau bod gwybodaeth a chyngor ar gael ynghylch gweithgareddau, cymorth ac adnoddau sy'n cael eu cynnig yn lleol gan gyrff arbenigol;
- sicrhau bod cyfle i ddefnyddio trafnidiaeth - e.e. trafnidiaeth gyhoeddus leol, tacsis sydd ar gael, deialu-a-theithio - a chymorth i'w defnyddio, i alluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddilyn y dull o fyw sydd orau ganddynt a'u gweithgareddau dewisol.

11.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn cydnabod ei bod yn rhan o'i gyfrifoldeb i gefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth y tu allan i'r cartref tra'n ymgymryd â gweithgareddau sy'n ganolog i'r teulu, gan gynnwys y rhai a gynhelir gyda'r nos ac ar benwythnosau.

## SAFON 12: HAMDDEN

## CANLYNIAD:

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau hamdden sy'n adlewyrchu eu dewis personol.

## Y SAFON:

12.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i gael cyfle i gyflawni ystod o weithgareddau hamdden priodol a dewis o'u plith.

12.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hannog a'u cynorthwyo i ddilyn eu diddordebau a'u hobïau eu hunain.

12.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn helpu i ddewis tripiau, adloniant a gwyliau ac yn penderfynu a fyddant yn cymryd rhan ynddynt.

12.4 Pan fo Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn cael toriad byr/gwyliau heb y defnyddiwr gwasanaeth, mae’r Rheolwr Gofal, ar ôl ymgynghori gyda’r rheolwr cofrestredig, yn sicrhau y gall ef/hi ddangos bod trefniadau priodol wedi'u gwneud ar gyfer y defnyddiwr gwasanaeth gyda'i gytundeb ef/hi.

**SAFON 13: CYNNAL PERTHYNAS**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael help i gynnal eu perthnasau personol, teuluol a rhywiol presennol, ac i feithrin rhai newydd fel y bo'n briodol.

**Y SAFON:**

13.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i gadw a meithrin cysylltiadau â'r teulu a chyfeillgarwch â phobl y tu mewn a'r tu allan i'r cartref, o fewn fframwaith bywyd teulu arferol, ac yn unol â'r hyn a gytunwyd yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

13.2 Croesewir teulu a chyfeillion yn y cartref, ac anogir hwy i gymryd rhan, fel y nodir yn y Cytundeb Lleol Oedolion.

13.3 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn dewis pwy y maent yn eu gweld a pha bryd; a gallant weld ymwelwyr yn eu hystafelloedd ac yn breifat.

13.4 Mae gan ddefnyddwyr gwasanaeth gyfleoedd i gyfarfod â phobl a gwneud ffrindiau â phobl nad oes ganddynt yr anabledd/y salwch/y caethiwed sydd ganddynt hwy.

13.5 Gall y defnyddwyr gwasanaeth feithrin perthynas bersonol/rhywiol â phobl o'u dewis, a darperir gwybodaeth i alluogi'r defnyddiwr gwasanaeth i wneud penderfyniadau priodol, yn amodol ar unrhyw faterion yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

**SAFON 14: GORCHWYLION POB DYDD**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw bywydau domestig cyffredin, ac mae eu hawliau yn cael eu parchu a'u cyfrifoldebau yn cael eu cydnabod.

**Y SAFON:**

14.1 Mae gorchwylion pob dydd a rheolau tŷ y cartref yn unol ag arferion domestig cyffredin, ac yn hybu annibyniaeth, dewis unigol a rhyddid i symud, yn amodol ar gyfyngiadau y cytunwyd arnynt yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

14.2 Caiff preifatrwydd y defnyddiwr gwasanaeth ei barchu, oni ofynnir am help a/neu fel y cytunir arno yn y Cytundeb Lleoli Oedolion, yn yr un modd ag y mae preifatrwydd Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn cael ei barchu gan y defnyddwyr gwasanaeth.

14.3 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth allwedd i fynd i mewn i'r cartref, oni chytunir yn wahanol yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

14.4 Nid yw post y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei agor heb eu cytundeb.

14.5 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y dull cyfarch sydd orau gan y defnyddiwr gwasanaeth wedi'i gofnodi yn y Cytundeb Lleoli Oedolion a'i fod yn cael ei barchu gan Ofalwr y Lleoliad Oedolion.

14.6 Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth yr un rhyddid i symud o fewn y cartref ag sydd gan yr aelodau eraill sydd yno.

14.7 Yn amodol ar yr hyn sydd wedi'i gytuno yn y Cytundeb Lleoli Oedolion, mae'r trefniadau ar gyfer ymwelwyr a nosweithiau hwyr allan yn cydymffurfio ag amserlenni teuluol rhesymol.

**SAFON 15: PRYDAU**

**CANLYNIAD:**

Mae deiet iachus yn cael ei gynnig i'r defnyddwyr gwasanaeth ac maent yn mwynhau eu prydau a'u hamserau bwyd.

**Y SAFON:**

15.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn hybu iechyd a lles y defnyddwyr gwasanaeth drwy ofalu bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn:

- darparu prydau maethlon, amrywiol, cytbwys sydd wedi'u cyflwyno'n ddeniadol ac sy'n briodol i anghenion deietegol a diwylliannol y defnyddwyr gwasanaeth, ac yn parchu eu dewisiadau unigol.
- cynnig prydau deirgwaith y dydd gan gynnwys o leiaf un pryd sydd wedi'i goginio; ac mae ystod o ddiodydd a byrbrydau ar gael bob amser i ddiwallu anghenion yr unigolyn.
- yn rhoi cymorth ymarferol i'r defnyddwyr gwasanaeth i'w helpu i gynllunio, paratoi ac arlwyo prydau.
- annog y defnyddwyr gwasanaeth i fwyta gyda'r teulu ac yn unol ag arferion cyffredin y teulu.
- ystyried gweithgareddau/amserlenni'r defnyddwyr gwasanaeth wrth gynllunio prydau.
- gofalu bod defnyddwyr gwasanaeth y mae arnynt angen help i fwyta yn cael cymorth priodol, ac yn cael cymorth i ddewis cymhorthion bwyta priodol.

15.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at Reolwyr Gofal i'w hasesu am gymorth arbenigol lle mae ffactorau risg sy'n gysylltiedig ag anhwylderau bwyta, diffyg maeth a gordewdra.

## ADRAN 4: CYMORTH PERSONOL

## SAFON 16: GOFAL PERSONOL

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth personol yn y ffordd sydd orau ganddynt ac yn unol â'u hanghenion.

**Y SAFON:**

16.1 Os oes mae angen cymorth personol, ac os mai'r Gofalwr Lleoliad Oedolion yw'r darparwr a ffefrir gan y defnyddiwr gwasanaeth, mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y Gofalwr Lleoliad Oedolion:

- yn rhoi cymorth personol sensitif a hyblyg i hybu i'r eithaf breifatrwydd, urddas, annibyniaeth a rheolaeth y defnyddwyr gwasanaeth ar eu bywydau.
- yn rhoi cymorth personol yn breifat.
- yn pennu amserau hyblyg i'r defnyddiwr gwasanaeth godi/mynd i'r gwely, cael bath, a chyflawni gweithgareddau eraill (gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau) o fewn amserlenni teuluol arferol.
- pan fydd angen, mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn cael cyfarwyddyd a chymorth ynghylch hylendid personol (e.e. ymolchi, eillio) ac mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn dewis eu dillad, eu ffasiwn gwallt a'u colur eu hunain.

16.2 Mae'r rheolwr cofrestredig, law yn llaw â'r Rheolwr Gofal, yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth wedi cael yr addasiadau a'r offer y mae arnynt eu hangen ar gyfer bod mor annibynnol ag y bo modd (fel y'u nodwyd trwy asesiad proffesiynol, ac maent yn cael eu hadolygu a'u newid /adnewyddu yn brydlon wrth i anghenion y defnyddiwr gwasanaeth newid, ac yn cael eu cynnal-a'u-cadw'n rheolaidd) ac mae Gofalwr y Lleoliad wedi cael hyfforddiant i'w defnyddio.

16.3 Mae dewisiadau defnyddwyr y gwasanaeth ynghylch sut y cânt eu symud, eu cynorthwyo a'u trosglwyddo, wedi'u nodi yn y Cytundeb Lleoli Oedolion ac mae unrhyw resymau dros beidio â gwneud hynny'n cael eu hesbonio.

16.4 Bydd y Rheolwr Gofal, law yn llaw â'r rheolwr cofrestredig, yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hatgyfeirio at y Meddyg Teulu am gymorth a chyngor ychwanegol, arbenigol, yn ôl yr angen, gan ffisiotherapyddion, therapyddion galwedigaethol, therapyddion lleferydd ac eraill, ac yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod anghenion arbenigol y defnyddwyr yn cael eu diwallu.

16.5 Mae gofal nyrsio cyffredinol a seiciatrig yn cael ei ddarparu neu ei oruchwylio gan nyrsys cofrestredig fel y nodir yn y Cytundeb Lleoli Oedolion, ac yn cael ei fonitro a'i gofnodi, a'i adolygu'n rheolaidd.

**SAFON 17: GOFAL IECHYD**

**CANLYNIAD:**

Mae anghenion corfforol ac emosiynol y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu bodloni.

**Y SAFON:**

17.1 Mae'r rheolwr cofrestredig, a'r y cyd â'r Rheolwr Gofal, yn sicrhau bod anghenion gofal iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diwallu ar sail asesiad gan weithwyr proffesiynol perthnasol.

17.2 Mae'r Rheolwyr Gofal, ar y cyd â'r rheolwr cofrestredig, yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynorthwyo a'u hyrwyddo i gymryd yr awenau a rheoli eu gofal iechyd eu hunain, gan gynnwys:

- cymorth i gael gweld gwybodaeth a chyngor cyfoes am faterion iechyd cyffredinol (e.e. ymataliaeth corfforol, atal cenhedlu, sgrinio rheolaidd);

- cymorth i reoli eu hanhwylderau meddygol eu hunain (e.e. diabetes) lle bo'n bosibl;

- cymorth i ddewis eu Meddyg Teulu eu hunain, i wneud penderfyniadau am eu gofal iechyd/triniaeth feddygol eu hunain, ac i ofyn am ail farn feddygol;

- cymorth i gael defnyddio cyfleusterau gofal iechyd y GIG yn y gymdogaeth - tîm gofal sylfaenol, deintydd, optegydd, meddyg traed/podiatrydd, therapyddion, nyrsys cymunedol a nyrsys arbenigol (e.e. nyrs arbenigol diabetes, nyrs iechyd meddwl), therapïau amgen;

- cymorth i fynd i apwyntiadau cleifion allanol ac apwyntiadau eraill;

- cymorth i gael defnyddio cyfieithwyr ar y pryd annibynnol.

17.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gwneud trefniadau priodol gyda Gofalwr y Lleoliad Oedolion i sicrhau bod iechyd y defnyddwyr gwasanaeth yn cael ei fonitro gan weithiwr proffesiynol iechyd (y Meddyg Teulu fel rheol) ac mae cymhlethdodau a phroblemau posibl yn cael eu nodi a'u trin yn gynnar.

17.4 Bydd ymweliadau â defnyddwyr gwasanaeth gan ymarferwyr meddygol/gofal iechyd yn digwydd yn breifat oni fydd y defnyddiwr gwasanaeth yn dewis cael Gofalwr y Lleoliad Oedolion neu gynorthwywr arall yn bresennol.

**SAFON 18: MEDDYGINIAETH**

**CANLYNIAD:**

Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cadw, yn rhoi ac yn rheoli eu meddyginiaeth eu hunain.

**Y SAFON:**

18.1 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hannog a'u cefnogi i gadw, rhoi a rheoli eu meddyginiaethau eu hunain, gan ddilyn polisi a gweithdrefnau ar gyfer rheoli risg ac ar gyfer derbyn, cofnodi, storio, trafod a gwaredu meddyginiaethau.

18.2 Mae cydsyniad y defnyddwyr gwasanaeth i gael meddyginiaeth gan drydydd parti yn cael ei sicrhau a'i gofnodi yn y Cytundeb Lleoli Oedolion pan fydd angen.

18.3 Wedi i ddefnyddiwr gwasanaeth dderbyn asesiad sy'n cadarnhau ei fod yn gallu rhoi meddyginiaeth iddo'i hun, mae'r defnyddiwr gwasanaeth hwnnw yn cael lle i storio'r feddyginiaeth dan glo, a hwnnw'n lle y caiff Gofalwr y Lleoliad Oedolion fynd ato gyda chaniatâd y defnyddiwr gwasanaeth.

18.4 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn cadw cofnod o'r meddyginiaethau cyfredol ar gyfer y defnyddwyr gwasanaeth gan gynnwys y rhai y maent yn eu rhoi iddynt eu hunain.

18.5 Mae gan y rheolwr cofrestredig bolisi ar drin meddyginiaethau a chadw cofnodion ac mae'n sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn gwybod am y polisi a'r egwyddor sy'n sail iddo.

18.6 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod unrhyw Ofalwr Lleoliad Oedolion sy'n rhoi meddyginiaethau yn gallu dangos ei fod wedi cael hyfforddiant gan gynnwys gwybodaeth sylfaenol am sut mae meddyginiaethau penodol neu berthnasol yn cael eu defnyddio a sut i adnabod problemau wrth eu defnyddio ac ymdrin â hwy.

18.7 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn gofyn am wybodaeth a chyngor, os oes angen, a gyda chydsyniad y defnyddiwr gwasanaeth, gan fferyllydd ynghylch meddyginiaethau sy'n cael eu paratoi a'u rhoi i'r defnyddwyr gwasanaeth.

18.8 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion, dan oruchwyliaeth y gweithiwr proffesiynol perthnasol, yn adnabod ac yn monitro unrhyw newid cyflwr a all ddigwydd yn sgil cymryd meddyginiaeth, ac yn cymryd y camau priodol yn unol â'r Cytundeb Lleoli Oedolion.

## SAFON 19: HENEIDDIO A MARWOLAETH

### CANLYNIAD:

Mae heneiddio, salwch a marwolaeth y defnyddiwr gwasanaeth yn cael eu trafod gyda pharch ac yn unol â dymuniadau'r unigolyn.

### Y SAFON:

19.1 Mae heneiddio, salwch a marwolaeth defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu trin gyda sensitifrwydd a pharch.

19.2 Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn gallu cael triniaeth a gofal, ac yn gallu marw, yn y cartref os yw Gofalwr y Lleoliad yn medru diwallu eu hanghenion a chyflawni ei gyfrifoldebau i aelodau eraill y teulu, onid oes rheswm meddygol dros leoliad arall neu oni chytunwyd fel arall ymlaen llaw yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

19.3 Mae dymuniadau'r defnyddiwr gwasanaeth ynghylch gofal terfynol a marwolaeth (gan gynnwys cadw at arferion crefyddol a diwylliannol) yn cael eu trafod fel y bo'n briodol ac yn cael eu cynnwys yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

19.4 Mae teulu a chyfeillion y defnyddiwr gwasanaeth yn cael help i fod yn rhan o'r broses o gynllunio ar gyfer mynd yn hen, salwch terfynol a marwolaeth ac ar gyfer delio â hynny (os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth).

19.5 Mae gofal lliniarol, cymorth ymarferol a chyngor, a chwnsela ynglŷn â galar yn cael eu darparu gan weithwyr proffesiynol hyfforddedig/asiantaethau arbenigol os dyna yw dymuniad y defnyddiwr gwasanaeth.

19.6 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod anghenion cyfnewidiol defnyddiwr gwasanaeth y mae ei gyflwr yn gwaethygu neu sy'n dioddef o ddemensia - sef anghenion am gymorth personol neu gymhorthion technegol - yn cael eu hadolygu gan y Rheolwr Gofal a'u bodloni'n gyflym i sicrhau bod yr unigolyn yn cadw cymaint o reolaeth ag y bo modd.

## ADRAN 5: RÔL AC YMDDYGIAD GOFALWYR LLEOLIAD OEDOLION

## SAFON 20: RÔL A CHYFRIFOLDEBAU

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa ar fod rolau a chyfrifoldebau clir gan y Gofalwr Lleoliad Oedolion.

**Y SAFON:**

20.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn esbonio i'r defnyddiwr gwasanaeth sut y bydd yn bodloni ei gyfrifoldebau fel y'u nodir yn y Cytundeb Lleoli Oedolion.

20.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y Gofalwr Lleoliad Oedolion yn gwybod am ac yn cefnogi prif nodau lleoli oedolion, fel y'u nodir yn y Datganiad o Fwriad yn y Cynllun Lleoli Oedolion, Llawlyfr y Gofalwyr Lleoliadau Oedolion, a'r Cytundeb Lleoli Oedolion.

20.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod anghenion y defnyddiwr gwasanaeth, fel y'u haseswyd, yn cael eu bodloni ac mae'n tynnu sylw'r Rheolwr Gofal at unrhyw anghenion na ddiwallwyd sydd y tu hwnt i'w rheolaeth hwy, a hysbysir y defnyddiwr gwasanaeth am hynny.

20.4 Mae'r darparwr cofrestredig / rheolwr cofrestredig yn gallu delio ag argyfyngau ac mae ganddo bolisi ysgrifenedig ynghylch yr hyn sydd i'w wneud os bydd argyfwng yn digwydd y tu allan i oriau swyddfa arferol, a hysbysir y defnyddiwr gwasanaeth a Gofalwr y Lleoliad Oedolion.

20.5 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn gyfarwydd â'r Datganiad o Fwriad yn y Cynllun Lleoli Oedolion ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau cyfredol o ran cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r rheoliadau a'r safonau hyn, ac mae'n sicrhau bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael gweld polisïau a gweithdrefnau perthnasol ar ffurfiau priodol a'u bod yn eu deall.

20.6 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gan Ofalwr y Lleoliad yswiriant personol priodol ac yswiriant car sy'n cwmpasu ei waith fel Gofalwr Lleoliad Oedolion.

20.7 Mae'r rheolwr cofrestredig yn deall, ac wedi esbonio i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r Gofalwr Lleoliad y llinellau atebolrwydd sydd rhwng y defnyddiwr gwasanaeth, y Gofalwr Lleoliad, y Cynllun Lleoli a'r Rheolwr Gofal.

20.8 Mae'r cofnodion unigol a gedwir gan y rheolwr cofrestredig a Gofalwr y Lleoliad yn cael eu llunio, eu cadw a'u defnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gofynion cyfreithiol eraill.

20.9 Mae'r rheolwr cofrestredig yn rhoi gwybod i'r defnyddiwr gwasanaeth a'r Gofalwr Lleoliad am ymweliadau arfaethedig gan weithwyr y Cynllun Lleoliad ac arolygiadau arfaethedig ASGC, ac yn sicrhau bod y defnyddiwr

gwasanaeth a Gofalwyr Lleoliadau Oedolion yn cael cyfle i gyfarfod â gweithwyr y Cynllun Lleoliad Oedolion/arolygwyr ASGC.

**SAFON 21: RHINWEDDAU A CHYMWYSTERAU**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael cymorth Gofalwyr Lleoliad Oedolion hyfedr, profiadol a chymwysedig.

**Y SAFON:**

21.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gan y Gofalwr Lleoliad y rhinweddau a'r sgiliau y mae eu hangen i fodloni anghenion y defnyddwyr gwasanaeth.

21.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gan y Gofalwr Lleoliad y sgiliau a'r profiad y mae eu hangen ar gyfer y tasgau y disgwylir iddo'u cyflawni, gan gynnwys:

- gwybodaeth am anableddau defnyddwyr y gwasanaeth a'u cyflyrau penodol;
- sgiliau arbenigol i fodloni anghenion unigol defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys sgiliau cyfathrebu;
- dealltwriaeth o anghenion penodol a chyfnewidiol pob defnyddiwr gwasanaeth unigol a'r gallu i'w cydbwyso ag anghenion aelodau eraill o'r cartref;
- dealltwriaeth o ymosodiadau corfforol a geiriol, a hunan-niwed, fel ffordd o gyfleu anghenion, hoffterau a rhwystredigaethau pan fydd hyn yn berthnasol i'r rhai y maent yn eu helpu;
- ymwybyddiaeth o'u cyfyngiadau eu hunain o ran gwybodaeth a sgiliau, a phryd y mae'n briodol cynnwys rhywun arall sydd ag arbenigedd mwy penodol;
- gwybodaeth a gallu i feithrin a chynnal perthynas waith broffesiynol gydag e.e. ymarferwyr cyffredinol, gweithwyr cymdeithasol, nyrsys, seiciatryddion, therapyddion a staff sy'n gweithio mewn gwasanaethau gofal ac asiantaethau cymunedol ac arbenigol eraill.

21.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gan y Gofalwr Lleoliad ddigon o brofiad cofnodedig i gwrdd ag anghenion defnyddiwr y gwasanaeth, fel y'u haseswyd. Gall digon o brofiad cofnodedig gynnwys meddu ar NVQ lefel 2 neu 3 neu gymhwyster gofal arall sy'n cael ei gydnabod yn genedlaethol, neu'n ymaelodi â chwrs i ennill y cyfryw gymhwyster erbyn 1 Ebrill 2005.

**SAFON 22: GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn elwa o gael Gofalwyr Lleoliadau Oedolion sy'n cael eu cynorthwyo a'u goruchwylio'n dda.

**Y SAFON:**

22.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn gallu dangos bod ganddo gyfle i gael yr hyfforddiant, y datblygiad a'r cymorth y mae arno eu hangen i ddiwallu anghenion cyfnewidiol defnyddwyr gwasanaeth a nodau'r lleoliad.
.

22.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn gallu dangos ei fod yn medru cael gafael ar y cymorth a'r oruchwyliaeth y mae arno eu hangen i gyflawni ei swydd, ac yn eu derbyn.

22.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn cael cymorth a goruchwyliaeth reolaidd ynghylch y materion canlynol gan berson a enwir, a hynny ar gyfnodau y cytunir arnynt yn y Cytundeb Lleoli Oedolion ar gyfer pob lleoliad:

- monitro'r gwaith gyda defnyddwyr gwasanaeth unigol;
- cymorth a chyfarwyddyd proffesiynol;
- adnabod anghenion hyfforddi.

22.4 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y Gofalwr Lleoliad yn cael cyfle i gael cymorth a goruchwyliaeth arbenigol yn unol ag anghenion y defnyddwyr gwasanaeth ac adolygiad blynyddol gyda'r Cynllun Lleoli Oedolion.

**SAFON 23: COFNODION**

**CANLYNIAD:**

Mae hawliau a buddiannau gorau'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu diogelu gan bolisïau a gweithdrefnau'r rheolwr cofrestredig ar gyfer cadw cofnodion.

**Y SAFON:**

23.1 Mae cofnodion yn cael eu cadw fel sy'n ofynnol gan Reoliad 20.

23.2 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael gweld eu cofnodion a'r wybodaeth sy'n cael ei dal amdanynt gan y rheolwr cofrestredig, ac yn cael cyfle i helpu i gynnal eu cofnodion personol.

23.3 Mae'r holl gofnodion yn ddiogel, yn gyfoes ac mewn trefn; ac maent yn cael eu llunio, eu cadw a'u defnyddio yn unol â Deddf Diogelu Data 1998 a gofynion statudol eraill.

## SAFON 24: ARFERION GWAITH DIOGEL

### CANLYNIAD:

Mae iechyd, diogelwch a lles y defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hybu a'u diogelu.

### Y SAFON:

24.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn hybu ac yn amddiffyn iechyd, diogelwch a lles y defnyddiwr gwasanaeth, cyhyd ag y bo hynny'n ymarferol, o fewn fframwaith polisi'r Cynllun Lleoli Oedolion.

24.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn mabwysiadu arferion gweithio diogel, gan gynnwys symud a thrafod, diogelwch rhag tân, cymorth cyntaf, hylendid bwyd a rheoli heintiau.

24.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod gan Ofalwr y Lleoliad drefniadau priodol ar gyfer storio a gwaredu sylweddau peryglus yn ddiogel a sicrhau bod peiriannau a gwasanaethau'r cartref yn cael eu cynnal.

24.4 Gall y rheolwr cofrestredig ddangos bod asesiadau risg wedi'u cynnal, a bod casgliadau arwyddocaol wedi'u cofnodi, yn achos pob pwnc sydd wedi'i gynnwys yn Safonau 24.2 a 24.3 ynghylch arferion gweithio diogel.

24.5 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn cadw cofnodion priodol ac yn cofnodi pob damwain, anaf a digwyddiad o ran salwch neu glefyday trosglwyddadwy.

## ADRAN 6: PRYDERON, CWYNION AC AMDDIFFYNIAD

## SAFON 25: PRYDERON A CHWYNION

### CANLYNIAD:

Gwrandewir ar sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth a gweithredir arnynt.

### Y SAFON:

25.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn talu sylw i weithdrefn gwyno y Cynllun Lleoli Oedolion ac yn cadw at ofynion perthnasol y rheoliadau, a bod y Defnyddwyr Gwasanaeth yn gwybod sut i gwyno ac wrth bwy.

25.2 Mae Gofalwr y Lleoliad yn gwrando ar gwestiynau sy'n cael eu codi gan y defnyddwyr gwasanaeth cyn iddynt dyfu'n broblemau ac yn gwynion ffurfiol, ac yn gweithredu arnynt.

25.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod y weithdrefn gwyno wedi'i rhoi a'i hesbonio i bob defnyddiwr gwasanaeth, a lle bo hynny'n briodol, eu cynrychiolydd, mewn iaith/ar ffurf briodol, gan gynnwys gwybodaeth ar gyfer cyfeirio cwyn at ASGC ar unrhyw bryd, os dyna ddymuniad yr achwynydd.

25.4 Caiff materion a phryderon sy'n cael eu codi, a chwynion ffurfiol sy'n cael eu gwneud gan ddefnyddwyr gwasanaeth, a'r camau a gymerir wrth ymateb, eu cofnodi a'u hysbysu ar unwaith i'r rheolwr cofrestredig.

25.5 Mae'r darparwr cofrestredig yn sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth sydd am gael cymorth i fynegi barn neu i wneud cwyn yn cael help i ddefnyddio gwasanaeth eiriolaeth annibynnol lleol, cyfieithwyr ar y pryd annibynnol/gweithwyr cymorth cyfathrebu, a/neu hyfforddiant priodol.

25.6 Mae'r defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd yn cael sicrwydd gan y rheolwr cofrestredig a Gofalwr y Lleoliad na fyddant yn dioddef o ganlyniad i wneud cwyn, ond eglurir wrthynt y gallai fod angen, mewn achosion eithriadol, i anfon defnyddiwr o'r lleoliad dros dro neu'n barhaol mewn ymateb i gwyn er mwyn diogelu defnyddiwr arall.

## SAFON 26: AMDDIFFYNIAD RHAN CAMDRINIAETH

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hamddiffyn rhag camdriniaeth, rhag esgeulustod a rhag niweidio eu hunain.

**Y SAFON:**

26.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod Gofalwyr Lleoliadau yn amddiffyn defnyddwyr gwasanaeth y maent yn gofalu'n uniongyrchol amdanynt rhag camdriniaeth gorfforol, ariannol, seicolegol neu rywiol, esgeulustod, camdriniaeth oherwydd gwahaniaethu neu hunan-niwed neu driniaeth ddiraddiol (p'un ai drwy fwriad, esgeulustod neu anwybodaeth).

26.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwyr Lleoliadau yn deall ac yn ymdrin yn briodol ag ymosodiad corfforol a/neu lafar gan ddefnyddwyr gwasanaeth.

26.3 Pan fydd Gofalwyr Lleoliadau Oedolion yn ymdrin ag arian y defnyddwyr gwasanaeth a'u materion ariannol, mae’r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad Oedolion yn ymdrin yn briodol â hyn, gan sicrhau e.e. bod y defnyddwyr gwasanaeth yn cael gweld eu cofnodion ariannol personol, yn cael storio eu harian a'u pethau gwerthfawr yn ddiogel, yn cael ymgynghori’n breifat yngl◊n â'u harian, ac yn cael cyngor ar yswiriant personol; ac mae'n sicrhau nad yw'r Gofalwyr Lleoliadau yn ymhel ag ewyllysiau'r defnyddwyr gwasanaeth.

**ADRAN 7: YR AMGYLCHEDD**

**SAFON 27: SAFLE**

**CANLYNIAD:**

Mae'r defnyddwyr gwasanaeth yn byw mewn amgylchedd cartrefol, cysurus a diogel.

**Y SAFON:**

27.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod safle Gofalwr y Lleoliad yn addas ar gyfer y lleoli; mae'n hawdd ei gyrraedd, yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda; ac mae'n bodloni anghenion unigol y defnyddiwr gwasanaeth mewn ffordd gysurus a chartrefol, gan ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

27.2 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau nad yw defnyddwyr gwasanaeth sydd mewn lleoliadau seibiant/tymor-byr (hyd at dri mis) neu leoliadau gofal canolradd/adsefydlu yn rhannu'r un adeiladau â'r rhai mewn lleoliadau hir-dymor oni ellir dangos bod manteision i'r ddwy garfan.

27.3 Mae'r rheolwr cofrestredig yn gwneud trefniadau priodol i sicrhau bod safleoedd lleoli yn ddiogel, yn gysurus, yn olau, yn siriol, yn cael eu hawyru, yn lân ac yn rhydd rhag arogleuon ffiaidd, ac yn darparu golau, gwres ac awyriad digonol ac addas.

27.4 Mae'r safle lleoli yn rhoi cyfle addas i ddefnyddio amwynderau lleol, trafnidiaeth leol a gwasanaethau cymorth perthnasol, i gydweddu ag anghenion personol y defnyddiwr gwasanaeth a'i ddull o fyw.

27.5 Mae'r safle lleoli yn gwbl hygyrch i'r defnyddwyr gwasanaeth. Dylai cartrefi sy'n lletya defnyddwyr cadeiriau olwynion ddarparu mynediad gwastad, a dylai drysau i mewn i fannau cyffredin, ystafelloedd defnyddwyr gwasanaeth, cyfleusterau ymolchi a chyfleusterau toiled a lleoedd eraill y mae defnyddwyr cadeiriau olwyn yn cael mynd iddynt, fod yn ddigon llydan ym mhob man.

27.6 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwyr Lleoliadau yn cymryd camau digonol i ofalu rhag tân ac i ddiogelu'r cartref ac yn ymddwyn fel perchenogion cyfrifol gan gymryd i ystyriaeth ganllawiau'r gwasanaeth tân lleol.

27.7 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod Gofalwr y Lleoliad yn cadw'r cartref, yr offer a'r celfi mewn cyflwr da.

27.8 Mae'r defnyddiwr gwasanaeth yn rhannu cartref Gofalwr y Lleoliad fel aelod o'r teulu ac yn cael defnyddio ffôn sy'n addas at anghenion arbenigol y defnyddiwr gwasanaeth.

**SAFON 28: YSTAFELLOEDD UNIGOL**

**CANLYNIAD:**

Mae ystafelloedd y defnyddwyr gwasanaeth eu hunain yn addas ar gyfer eu hanghenion a'u dulliau o fyw ac yn hyrwyddo eu hannibyniaeth.

**Y SAFON:**

28.1 Mae'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod:

- gan bob defnyddiwr gwasanaeth ystafell wely breifat, y mae ganddi arwynebedd llawr defnyddiadwy a ffitiadau a chelfi sy'n ddigonol ac yn addas i fodloni anghenion yr unigolyn a'i ddull o fyw.

- y defnyddiwr gwasanaeth yn cael cynnig y dewis o ystafell sengl; bydd yr ystafelloedd dwbl presennol yn cael eu disodli erbyn 2007 oni bai fod y defnyddwyr gwasanaeth yn dewis rhannu; yn y cyfamser nid oes unrhyw ystafelloedd yn cael eu defnyddio gan fwy na dau berson.

- gan ystafelloedd sengl sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd ac yn lletya defnyddwyr cadeiriau olwyn a defnyddwyr gwasanaeth sydd ag anghenion nyrsio cymhleth (e.e. systemau ocsigenu/cynnal bywyd) ddigon o arwynebedd llawr defnyddiadwy (heb gynnwys en suite) ar gyfer troi, trosglwyddo eiddo personol a chael gafael arno, ac ar gyfer offer meddygol a gofynion nyrsio.

- y dodrefn a'r ffitiadau o ansawdd dda, ac yn cynnwys gwely, dillad gwely a llenni, lle i hongian dillad a lle mewn droriau, a bwrdd wrth erchwyn gwely ar gyfer eiddo e.e. offer electronig personol.

## SAFON 29: ADDASIADAU AC OFFER

**CANLYNIAD:**

Mae gan y defnyddwyr gwasanaeth yr offer arbenigol y mae arnynt eu hangen i fod mor annibynnol ag y bo modd.

**Y SAFON:**

29.1 Mae'r Rheolwr Gofal a'r rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod yr addasiadau a'r offer sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni anghenion y defnyddiwr gwasanaeth - fel y'u haseswyd yn unigol - yn cael eu gwneud neu eu darparu, yn ôl fel y digwydd.

29.2 Mae lleoliad ar gyfer person ag anableddau corfforol yn darparu offer arbenigol fel y bo'r angen, gan gynnwys, er enghraifft:

- offer symud / trac uwchben ar gyfer taclau codi;
- canllawiau grisiau, lifftiau sy'n cydymffurfio â chanllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch;
- system rheoli'r amgylchedd;
- ystafelloedd llaw dde a llaw chwith;
- ffitiadau / offer ystafell ymolchi wedi'u teilwrio'n briodol;
- systemau larwm galw;
- switsys golau, arwynebeddau gweithio ac agoriadau ffenestr sy'n is na'r cyffredin
- cyfleusterau storio / aildrydanu ar gyfer cadeiriau olwyn / offer symudedd.

29.3 Mae lleoliad ar gyfer person sydd â nam ar ei synhwyrau yn darparu cymhorthion ac addasiadau arbenigol yn ôl yr angen gan gynnwys, er enghraifft:

- dolennau sain / microffonau / minicomau / ffonau testun / fideoffon;
- goleuadau ychwanegol a/neu oleuadau gwrth-lacharedd; cyferbynnu lliwiau;
- symbolau cyffyrddol; arwynebeddau â gweadau amrywiol;
- peryglon / rhwystrau wedi'u fflworoleuo neu eu clustogi (lle nad oes modd eu symud);
- cyfrifiadur at ddefnydd personol y defnyddwyr;
- teledu gyda fideorecordydd a chyfleuster is-deitlo / iaith arwyddion.

29.4 Mae'r cymhorthion, yr addasiadau a'r offer sy'n cael eu darparu yn dilyn asesiad gan therapydd galwedigaethol neu arbenigwr cymwys arall.